



Comisiynydd  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol  
Cymru

Future  
Generations  
Commissioner  
for Wales



# Taith tuag at Gymru Lewyrchus

**1: Caffael teg a lleol:** defnyddio caffael i hybu twf cynhwysol

**2: Gwaith teilwng:** sbarduno arferion sy'n caniatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith gweddus

**3: Economiâu lleol:** cynorthwyo economiâu lleol cynhwysol a'r economi sylfaenol

**4: Ynni cymunedol a chymdeithas garbon isel:** galluogi sefydliadau a chymunedau i leihau allyriadau a defnyddio ynni carbon isel

**5: Sgiliau ar gyfer y dyfodol:** annog sefydliadau i ddatblygu poblogaeth fedrus, addas ar gyfer newidiadau technolegol y dyfodol





Comisiynydd  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol  
Cymru

Future  
Generations  
Commissioner  
for Wales



## Taith tuag at Gymru Lewyrchus

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel

*“Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd), ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith gweddus”.*



# Gymru Lewyrchus

1: Caffael teg a lleol

## Diffinio'r nod

Mae 50 mlynedd wedi mynd heibio ers i Robert Kennedy draddodi ei anerchiad hanesyddol pan hawliodd fod Cynnyrch Domestig Gros yn mesur 'popeth heblaw'r hyn sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw'.

Er gwaethaf hynny, mae Cynnyrch Domestig Gros wedi parhau i fod o'r pwys pennaf i'r cyhoedd a gwneuthurwyr polisi fel y dull critigol o fesur cynnydd. Tra bo'r ffocws traddodiadol hwn ar dwf economaidd wedi llunio'r byd yr ydym yn ei adnabod heddiw, mae wedi gadael llawer o bobl ar ôl. Mae 1% cyfoethocaf y byd yn berchen ar 45% o gyfoeth y byd, tra bo bron i chwarter y bobl yma yng Nghymru'n byw mewn tlodi. Wrth i'r economi ehangu, felly hefyd y galw am yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu ar gyfer hyn. Mae cenedlaethau'r dyfodol mewn perygl o fyw mewn byd o anghydraddoldeb llwm a banc adnoddau naturiol gwag.


Yr hyn sy'n gwneud Cymru'n unigryw yw na fedrwch chi ddod o hyd i unrhyw son am Werth Ychwanegol Gros (GYC) neu Gynnrych Domestig Gros yn niffiniad Cymreig o ffyniant; mae ein

gweledigaeth ni o ffyniant yn mesur yr hyn sydd o bwys. O fewn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol nid yw llesiant economaidd yn cael blaenoriaeth dros lesiant amgylcheddol, cymdeithasol, neu ddiwylliannol. Ein nod o Gymru lewyrchus yw un lle mae pobl yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau a darganfod gwaith gweddus, lle rydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd deg a lleol, lle mae'r economi sylfaenol yn cynhyrchu cyfoeth a chyflogaeth leol, a lle'r ydym yn symud tuag at gymdeithas garbon isel.



### Astudiaethau achos

Drwy'r holl ddogfen hon byddwch yn dod o hyd i nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i wrthrych y pwnc. Os gwelwch yn dda darllenwch y ddolen os byddwch yn gweld y symbol hwn.



## Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

**Caffael nwyddau a gwasanaethau mewn dulliau sy'n cynorthwyo llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol** ([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 1: Caffael Teg a Lleol](#))

**Cynorthwyo arferion gwaith teg drwy gyflogaeth a gwasanaethau**

([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 2: Gwaith gweddus](#))

**Cefnogi'r economi sylfaenol drwy gynhyrchu cyfoeth a darparu cyflogaeth**

([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 3: Economiâu Lleol](#))

**Galluogi cymdeithas garbon isel drwy gynorthwyo ynni cymunedol a lleihau allyriadau**

([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 4: Cynhyrchu Ynni Cymunedol](#))

**Gweithio gydag eraill i gynorthwyo datblygiad sgiliau ar gyfer y dyfodol**

([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 5: Sgiliau ar gyfer y dyfodol](#))

**Cefnogi arloesedd i ddatblygu economi addas ar gyfer y dyfodol**

([Pwnc taith ar arloesedd i'w archwilio yn y cyfnod nesaf](#))

**Defnyddio adnoddau'n effeithlon, cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang**

([Pwnc taith ar economi cylchol i'w archwilio yn y cyfnod nesaf](#))

## Gofynion statudol eraill sy'n berthnasol i'r nod hwn

**Mae caffael cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r fframwaith cyfreithiol a osodwyd gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.** Mae'r rheoliadau'n caniatáu i awdurdodau sy'n contractio i ystyried ymgorffori agweddau cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol mewn manylebau, amodau contract a meini prawf dyfarnu. Mae hyn yn cynnwys amddiffync yr amgylchedd, effeithlonrwydd ynni, brwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, hybu arloesedd, a chyflogaeth a chynhwysedd cymdeithasol.

Gellir cael mwy o wybodaeth yn:

- [Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015](#).
  - [Arweiniad ar agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol](#).
- Mae'r rheoliadau contractau cyhoeddus canlynol yn arbennig o berthnasol i'r pwnc caffael teg a lleol:**
- **Mae Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn (rheoliadau 74 i 77):** yn cynnig i gomisiynwyr sydd eisiau macsimeiddio manteision lleol caffael i deilwra'r modd y maent yn gweithredu'r broses caffael ar gyfer rhai gwasanaethau, er mwyn diwallu anghenion darparwyr lleol.
  - **Mae Contractau neilltuedig (Rheoliad 77):** wedi eu dylunio i helpu sefydliadau'r trydydd sector i sefydlu eu hunain a chystadlu i ddarparu gwasanaethau ag iddynt ddimensiwn iechyd, cymdeithasol, addysgol neu ddiwylliannol.
  - **Contractau neilltuedig 20 – (1)** Gall awdurdodau contractio (a) gadw'r hawl i gyfranogi mewn gweithdrefnau caffael cyhoeddus weithdai gwarchodol a gweithredwyr economaidd â'u bryd ar integreiddio'n gymdeithasol a phroffesiynol bobl anabl a phobl o dan anfantais, neu (b) drefnu i'r fath gontractau gael eu perfformio yng nghyd-destun rhagleni cyflogaeth warchodol, ar yr amod bod o leiaf 30% o weithwyr, gweithredwyr economaidd neu

ragleni'r gweithdai hynny yn weithwyr anabl neu'n rhai o dan anfantais.

- **Rheoliad 40 (1):** Cyn cychwyn gweithdrefn caffael, gall awdurdodau sy'n contractio gynnal ymgynghoriad marchnad gyda'r bwriad o baratoi'r caffael a rhoi gwybod i weithredwyr economaidd am eu cynlluniau a'u gofynion caffael.
- **Rheoliad 40 (3):** 'Gellir defnyddio'r fath gyngor wrth gynllunio ac arwain y weithdrefn caffael...'
- **Ennynt ymgyfraniad defnyddwyr gwasanaethau: Rheoliad 76 (8)** '...gall awdurdodau contractio gadw mewn golwg unrhyw ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys '...anghenion penodol categorïau gwahanol o ddefnyddwyr; (ac) ennynt ymgyfraniad defnyddwyr a'u grymuso.'



Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynw wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'St'.

## Galluogwyr

Bydd gwired du'r nod yn **fwy tebygol o ddigwydd...**

- Pan fydd cymalau cymdeithasol ac amgylcheddol mewn contractau'n cael eu monitro – er enghraifft manteision cymunedol.
- Pan ofynnir i fusnesau adrodd ar effeithiau ehangach, yn hytrach nag allbynnau a chanlyniadau rhifiadol yn unig.
- Pan fydd yna ymgysylltu ystyrlon busnesau lleol yn natblygiad cynlluniau economaidd lleol.
- Pan fydd yna amgylchedd polisi sy'n cynorthwyo economi sylfaenol ac ymagweddau carbon isel i ddod yn rhan o'r brif ffrwd.
- Pan fydd datblygu gweithluoedd medrus, amlddisgyblaethol yn flaenoriaeth ym mhob sefydliad.



## Analluogwyr

Bydd gwreddu'r nod hwn yn **llai tebygol o ddigwydd...**


- Pan ganfyddir bod twf economaidd yn ymwneud yn unig â Chynnyrch Domestig Gros neu Werth Ychwanegol Gros.
- Pan fydd sefydliadau'n gweithio mewn seilos, gan leihau'r cyfleoedd ar gyfer ymagweddau cydgysylltiedig a meddylfryd arloesol.
- Pan fydd adnoddau naturiol yn cael eu masnachu a'u gwerthu, heb ystyried effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- Pan fydd technoleg carbon isel yn cael ei weld fel rhywbeth costus sy'n creu risg uchel.
- Pan fydd sefydliadau'n methu annog diwylliant o waith gweddus, er enghraift drwy fynd i'r afael â bylchau cyflog rhwng y rhywiau neu gontactau dim-oriau.





Comisiynydd  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol  
Cymru

Future  
Generations  
Commissioner  
for Wales



Taith tuag at

# Gymru Lewyrchus

## 1: Caffael teg a lleol

Defnyddio caffael i hybu twf cynhwysol

# Gymru Lewyrchus

1: Caffael teg a lleol

## Diffinio'r mater

Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n gwario dros £6bn i gaffael ystod o nwyddau, gwasanaethau a gwaith bob blwyddyn. Darganfu [adroddiad Caffael Cyhoeddus](#) Swyddfa Archwilio Cymru bod gwerth am arian (y pris isaf) yn dal i gael ei weld fel sbardun allweddol caffael yn hytrach na chanlyniadau gwerth ehangach. Mae hyn yn mynd yn groes i ofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r arweiniad statudol sy'n mabwysiadu'r diffiniad canlynol: "y broses lle mae sefydliadau'n diwallu eu hanghenion am nwyddau,

gwasanaethau, gweithiau a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan yn nhermau cynhyrchu budd i'r sefydliad, ond hefyd i gymdeithas a'r economi, tra'n minimeiddio niwed i'r amgylchedd". Dangosodd ymchwil o [Ffederasiwn Busnesau Bach \(FSB\)](#) yn 2017 mai dim ond 23% o fusnesau bach a chanolig oedd wedi gweithio i'r sector cyhoeddus yn y flwyddyn flaenorol. Dangosodd dadansoddiad diweddar hefyd bod contractau'r sector cyhoeddus a ddyfarnwyd i fusnesau cymdeithasol wedi syrrthio i'r lefel isaf mewn dwy flynedd.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



### Taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang

**Pwnc 1:** Caffael a defnyddio moesegol



### Taith tuag at Gymru gydnerth

**Pwnc 4:** Defnyddio adnoddau naturiol

Mae gan gaffael y potensial i fynd i'r afael â heriau lleol economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Er enghraifft:

- Mae cynyddu gwariant gyda Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) yn atal arian rhag differu allan o'r ardal. Darganfu ymchwil FSB bod yr economi lleol yn elwa o 58% ar gyfartaledd pan fydd awdurdodau lleol yn gwario arian gyda chwmnïau bach.
- Gan fod busnesau bach wedi eu hangori yn eu cymunedau, mae buddsoddi yn dyddyn yn aros yn y gymuned, ac yn cael ei ailgylchu er lles economaidd a chymdeithasol ehangach.
- Drwy adeiladu cyfoeth lleol yn [Preston](#), mae cyrff cyhoeddus wedi cynyddu eu gwariant gyda sefydliadau lleol o 13.2% (£74.8 miliwn) rhwng 2012/13 a 2016/17.



## Gwneud **Newidiadau** Syml

**Gweithiwr drwy'r pum** dull o weithio a nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a mapiwch ganlyniadau caffael yn erbyn y saith nod llesiant – gan gychwyn gydag un contract sy'n bodoli eisoes ac wedyn ar nifer cynyddol. Mae [Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol](#) yn adnodd defnyddiol i'ch helpu i wneud hyn.

**Defnyddiwch gyngor** sy'n bodoli eisoes a phecynnau cymorth megis y [Canllaw Bidio ar y Cyd a'r Pecyn Cymorth Gallu Gwneud](#).

**Canfyddwch rwydweithiau** busnesau lleol ar gyfer BBaChau a busnesau cymdeithasol, yn cynnwys rhwydweithiau ar-lein, i wella'ch gwybodaeth o fusnesau lleol a'r gwasanaethau y gallent eu darparu.

**Cyhoeddwch eich tendrau'n ddwyieithog** lle mae hynny'n bosibl, a sicrhewch fod yna gyfleoedd i fusnesau ymgysylltu'n ddwyieithog.

**Cyhoeddwch eich tendrau** mewn da bryd i ganiatáu amser i fusnesau drefnu ac ymateb.

**Dadansoddwch a chyhoeddwch** wariant caffael, gan dalu sylw manwl i ble mae'r arian yn mynd yn nhermau daearyddiaeth, sector ac yn nhermau'r math o fusnes.

**Cyhoeddwch dendrau** mewn da bryd i roi i FBaChau a busnesau cymdeithasol amser i baratoi ac ymateb.



E.e. Mae pedwar sefydliad ym Mlaenau Gwent (**Linc Cymru, Cartrefi Melin, Tai Calon a Chymdeithas Tai Unedig Cymru**) ynghyd ag **Uned Datblygu Economaidd Cyngor Blaenau Gwent, Canolfan Cydweithredol Cymru** a'r Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo wedi uno i edrych ar gyfleoedd i weithio gyda'i gilydd i gynorthwyo BBaChau. Mae bron i 90% o fusnesau ym Mlaenau Gwent yn gwmnïau bach iawn gyda gweithlu o lai na naw o bobl. Eu nod yw deall yr asedau a ddygir gan gymdeithasau tai i economi sylfaenol Blaenau Gwent a chanfod prosiectau lle gallai mwy o gydweithio rhwng cymdeithasau tai a phartneriaid eraill adeiladu cyfleoedd economi sylfaenol.

## Gwneud **Newidiadau** Syml

**Talwch eich cyflenwyr yn brydlon.**

E.e. Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** yn talu eu cyflenwyr yn brydlon, gan lwyddo i dalu 96% o anfonebau o fewn 30 diwrnod.

**Lle bo angen caffael cerbydau,** caffaelwch yn ddiofyn fflyd drydan gan ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno achos busnes ar gyfer cerbydau eraill.

**Gnewch leihau carbon yn rhan o'ch prosesau caffael.** Mae gan WRAP ganllawiau defnyddiol [yma](#).

**Penodwch eiriolwyr gwerth** cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o werth cymdeithasol o fewn eich sefydliad ac i weithredu fel pwynt cyswilt i sefydliadau gwerth cymdeithasol.

E.e. Penododd Cyngor Dinas Coventry a Chyngor Swydd Warwick [eiriolwyr gwerth cymdeithasol](#) i sicrhau bod y miliynau o bunnoedd sy'n cael eu gwario gan gyrrf cyhoeddus gyda chwmniâu lleol yn cael eu gwario yn y dull mwyaf effeithiol.

**Cynorthwywch ffurfi consortia lleol** i helpu BBaChau bychan i gydweithio i sicrhau contractau mwy.

E.e. <https://youtu.be/cG7O3hQ7fgw>

**Ystyriwch sut** y gall tendrau caffael gael eu gwneud yn hygrych ac apelgar i weithwyr proffesiynol creadigol a'r rhai hynny sy'n gweithio yn y celfyddydau a diwylliant.

E.e. [Drwy ddefnyddio ymgynghoriaeth gelfyddydau creadigol dielw](#) penododd **Cyngor Dinas Abertawe** sefydliad celfyddydol dielw i reoli caffael celf gyhoeddus.

**Hyrwyddwch** a chyfranogwch mewn dyddiau ymwybyddiaeth ac ymgyrchoedd sy'n adlewyrchu ymrwymiad i dwf lleol cynhwysol a busnesau megis [Sadwrn Busnesau Bach, Pythefnos Cwmnïau Cydweithredol, Diwrnod Menter Gymdeithasol](#).

## Bod Yn Fwy Anturus

**Gweithiwr drwy'r pum dull o weithio a nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a mapiwch ganlyniadau caffael yn erbyn y saith nod llesiant – gan gychwyn gydag un contract newydd.**

**St**

**Ymrwymwch i ddefnyddio BBaChau lleol** a busnesau cymdeithasol lle mae hynny'n briodol

**ee**

E.e. wrth gyflwyno Arbed 2, defnyddiodd **Cartrefi Melin** gyflenwyr BBaCh, a ffocysodd y tendr yn fawr ar fuddiannau cymunedol a fyddai'n cael eu mesur gan Offeryn Mesur Budd Cymunedol Llywodraeth Cymru. Roedd Cartrefi Melin eisiau gweld BBaChau yn creu cyfleoedd gwirioneddol leol a chynaliadwy ynghyd â chyfleoedd hyfforddiant.

CARTREF

**St**

**ee**

**Ymrwymwch i ddefnyddio cyflenwyr busnesau cymdeithasol**

E.e. **Cartrefi Cymoedd Merthyr** lle mae aelodau (tenantiaid a gweithwyr) yn berchen y sefydliad. Gwnaethant weithio gyda'u Corff Democraidd i ddiffinio gwerth cymdeithasol a chynorthwyo busnesau lleol cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys newid trefniadau contractio fel nad yw mentrau cymdeithasol bellach mewn cystadleuaeth uniongyrchol â chontractwyr sy'n cael eu sbarduno'n fasnachol. Lle mae menter gymdeithasol yn medru cyflawni gwaith a gwasanaethau, nid yw'n ofynnol mwyach i gael dyfynbrys cystadleuol ar gyfer gwaith i fyny hyd at £50k. Gwnaethant

**St**

hefyd gaffael fframwaith ar gyfer isgontactwyr a chyflenwyr deunyddiau, lle gofynnir i gynigwyr (fel rhan o asesiad ansoddol) i ddangos sut y byddent yn gweithio'n rhagweithiol gyda mentrau lleol cymdeithasol wrth gyflawni eu gwasanaethau.

**Cynyddwch allu busnesau**

Lleol a busnesau cymdeithasol i gynnig am gontactau. Gallwch wneud hyn drwy: gynnal syrjeris i gyflenwyr a digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr'; drwy ddarparu hyfforddiant, cyngor ac adborth; a gwahanu contractau'n rhannau bychain i'w gwneud yn haws i FBaChau gynnig amdanynt ac adeiladau capasiti.

## Bod Yn Fwy **Anturus**

**Cynorthwywch a hyrwyddwch ariannu lleol** sy'n hygrych i FbaChau, mentrau micro a busnesau cymdeithasol.

ee

E.e. cydweithio rhwng [Purple Shoots](#) a **Chyngor Tref y Barri**: buddsoddodd cyngor y dref yn Purple Shoots i helpu a chynorthwyo pobl leol i sefydlu eu benthyciadau busnes hwy eu hunain.

St

**Defnyddiwch reoliadau Contractau Cyhoeddus** sy'n bodoli eisoes, gan nodi'r rhain yn fanwl yn adran ragarweiniol y daith hon.

CARTREF

**Defnyddiwch** gymalau budd cymunedol sy'n adlewyrchu'r nodau llesiant a'ch amcanion llesiant mewn contractau sy'n is na'r trothwy o £1miliwn.

ee

E.e. [Mae Strategaeth Gaffael Gymdeithasol Gyfrifol Cyngor Dinas Caerdydd](#) wedi ymrwymo i hyn.

**Integreiddiwch a chrynhowch gyllidebau i sicrhau**

gwasanaethau cydgysylltiedig a gwasanaethau atal.

**Gwerthuswch ymatebion** i dendrau nid yn unig yn ôl cost ac ansawdd, ond hefyd ymatebwch i gwestiynau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol; a phwysolwch eich penderfyniadau yn unol â hyn.

ee

**Sicrhewch** y manylir ar ymrwymiadau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol fel amodau mewn contractau.

E.e. Cynyddodd [cynllun ynni Cymuneol Abertawe](#) gyflogaeth i bobl leol drwy ddatblygu model newydd ar gyfer caffael lles cymunedol drwy sicrhau ynni adnewyddadwy i adeiladau'r cyngor.

## Bod Yn Fwy **Anturus**

ee

E.e Gwnaeth **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** fudd cymunedol yn rhan hanfodol o'u [Rhaglen Ansawdd Safonol Tai Cymru](#). Arweiniodd hyn at 44 o leoliadau gwaith, 114 o swyddi parhaol a 58 o brentisiaethau sydd wedi eu creu gyda'r gwasanaeth mewnol, contractwyr allanol a phartner cyflenwi'r Cyngor.

**Archwiliwch gyfleoedd** gydag asiantaethau gwelliant, megis [Academi Wales](#), i ddatblygu gweithdai caffael pwrpasol, digwyddiadau dysgu a chyfleoedd mentora/hyfforddi i ymarferwyr.

**Monitrwch gyflwyniad canlyniadau** cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a'u heffaith drwy fonitro contractau a hefyd ddadansoddiad pellach o wariant.

## Perchnogi'r Uchelgais

### Gweithredu cenedlaethol a chydweithredol

**Datganiad** Polisi Caffael Cymru (WPPS) yn adlewyrchu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Mae Llywodraeth Cymru'n** gweithio gyda chyrff cyhoeddus ac eraill (yn cynnwys busnesau bach ac asiantaethau cefnogi busnesau) i ddatblygu'r canllawiau diweddaraf a chefnogi cynlluniau peilot/rhagbrofion ar gaffael lleol.

**Datblygwch** fwy o allu proffesiynol a gwybodaeth o gaffael drwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy hyfforddi a mentora.

**Darparwch** hyfforddiant, cymorth ac arweiniad i FBaChau i adeiladu'r gallu i gynnig am gontactau'r sector cyhoeddus.

**Dathlwch a** chydabyddwch y rhai hynny sy'n arwain caffael blaengar/cynaliadwy yng Nghymru a sicrhewch fod y dysgu hwn yn cael ei rannu a'i gynyddu.

### Gweithredu sefydliadol

**Mabwysiadwch ymagwedd strategol tuag** at wneud adeiladu cyfoeth cymunedol yn rhan hanfodol o'ch gwaith, gan ei gynnwys yn eich cynlluniau a'ch strategaethau, a'ch helpu i gyflawni eich amcanion a'ch camau llesiant.

**Sicrhewch fod** caffael wedi ei gysylltu'n glir â blaenoriaethau lleol a hyn wedi ei ddatgan yn blaen yn eich dogfennau strategol.

**Monitrwch** sut mae eich gwariant caffael yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau lleol/amcanion llesiant, a nodau llesiant Cymru.

## Perchnogi'r Uchelgais

**Casglwch** at ei gilydd sefydliadau angori cymunedau (sy'n deall cymunedau lleol, â ganddynt ymrwymiad hirdymor i'r ardal a wasanaethir ganddynt ac a fedr beri i bethau cadarnhaol ddigwydd yn lleol) i gaffael ar y cyd a phrynu'n lleol, i sbarduno cynnydd yn y dasg o gyflawni nodau llesiant Cymru.

**Cynorthwywch** FfBachau a busnesau cymdeithasol yn ddiofyn fel arfer safonol.

**Cydweithiwch** gyda chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod mecanweithiau cyfreithiol ar gael i amddiffyn ymagweddau arloesol tuag at gaffael a fyddant, efallai'n cael eu herio.

## Enghreifftiau ac adnoddau eraill

### Canllaw cynnig ar y cyd:

<https://gov.wales/topics/improvingservices/bettervfm/publications/jointbidding/?lang=en>

### Pecyn Cymorth Gallu Gwneud:

<http://www.cih.org/i2i/publications>

### Y Gallu i Greu mewn caffael cyhoeddus:

<https://bateswells.co.uk/wp-content/uploads/2019/06/the-art-of-the-possible-in-public-procurement-pdf.pdf>

### Ardal, Cymunedau Pwerus, Economiâu Cryf:

<https://locality.org.uk/about/key-publications/powerful-communities-strong-economies-report/>

### Preston:

<http://urbact.eu/preston>

<https://cles.org.uk/tag/preston/>

<https://www.preston.gov.uk/thecouncil/the-preston-model/what-is-the-preston-model/>

<https://thenextsystem.org/learn/stories/infographic-preston-model>

### Manceinion:

<https://cles.org.uk/progressive-procurement-in-manchester/>

<https://cles.org.uk/publications/the-power-of-procurement-2/>

### Cleveland Ohio:

<https://community-wealth.org/content/cleveland-model-how-evergreen-cooperatives-are-building-community-wealth>

<https://democracycollaborative.org/content/turning-health-care-community-wealth-cleveland>

### 'Environmental Procurement: Practice Guide Volume

**1' Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig**  
[https://www.greeningtheblue.org/sites/default/files/UNDP-Environmental%20procurement\\_0.pdf](https://www.greeningtheblue.org/sites/default/files/UNDP-Environmental%20procurement_0.pdf)